I gyfarch a llongyfarch Cangen Merched y Wawr, Bethel ar ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed

Her i'n hiaith gymylau'r nos – i wthio'n
ddwyieithog ei hethos.
Eiriau rhwydd sy'n duo'r rhos,
lwyd wedd na wêl y diddos.

Mynnu safon mewn safiad – yn eich bro
yw'ch braint, rhoi arweiniad
dros yr iaith, golud mudiad;
hyn yw pris mynnu parhad.

Hyder doe yw pedwar deg, - mewn hanes
mae'n ennyd 'di hedeg.
Iaith ar daith, o'i thrin yn deg,
i'w chynnal, rhoi ychwaneg.

Heno, goleuir dunos, – ac angerdd
y gangen yw'r achos.
Hir yw'r nych drwy oriau'r nos,
Y Wawr sy'n mynnu aros.

Richard Llwyd Jones
11.03.2015